dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro
The Vale

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Bwletin i Ddysgwyr

Ceredigion Powys Sir Gâr a'r Fro

Tachwedd 2026



Bwletin Tachwedd

Gobeithio eich bod chi'n mwynhau eich dosbarthiadau Cymraeg hyd yn hyn!

Bob mis, byddwn yn anfon e-fwletin at bob un dysgwr. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau atodol, digwyddiadau, cyfleoedd a newyddion i siaradwyr Cymraeg newydd.

Gallwch nawr gofrestru i sefyll arholiad Mynediad CBAC ddydd Gwener 29 Ionawr 2027.

Nid yw'n rhy hwyr i gofrestru ar gwrs undydd wyneb yn wyneb.

Rydym yn cynllunio Eisteddfod y Dysgwyr yn y Fro yn ystod mis Mawrth 2027 - rhagor o wybodaeth i ddilyn eto.

Tîm Dysgu Cymraeg
Ceredigion Powys Sir Gâr a'r Fro
dysgucymraeg@aber.ac.uk

November Bulletin

We hope that you're enjoying your Welsh classes so far!

Each month, we will be sending out this e-bulletin to all learners which will include information about extra courses, events, opportunities and news for new Welsh speakers.

You can now register to sit the WJEC's Entry examination on Friday the 29th of January 2027.

It's not too late to register on a one day in-person November course.

We're planning a Learners' Eisteddfod in Barry during March 2027 - watch this space!

Learn Welsh Team
Ceredigion Powys Carms & the Vale
learnwelsh@aber.ac.uk

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Dysgwyr Canolradd, Uwch a Gloywi

- eisiau ymarfer eich Cymraeg?

Siaradwyr rhugl

- eisiau helpu dysgwyr i siarad?

Beth am ymuno â'r Cynllun Siarad?

Siarad.



Ffair Nadolig Rithiol

Nos Fercher, 25 Tachwedd am 8pm

Chwilio am anrhegion Nadolig? Cyfle i glywed am fusnesau Cymraeg a dechrau eich siopa Nadolig.

Sesiwn Cymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd.

Virtual Christmas Fair

Wednesday, 25 November at 8pm

Looking for Christmas presents? Join us, and get started on your shopping.

Welsh language session, with simultaneous translation.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

12-14 Chwefror 2027

Gwersyll yr Urdd Llangrannog

- **Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan**

Welsh for the Family Weekend

12-14 February 2027

Gwersyll yr Urdd Llangrannog

- Welsh lessons, activities and fun for all the family

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llangrannog





Cefnogaeth a chynnwys ar gyfer dysgwyr a siaradwyr newydd Cymraeg

Support and content for learners and new speakers of Welsh

Cylchlythyr misol, gydag awgrymiadau o beth i'w gwylio

Monthly newsletter, with suggestions of what to watch

Ffrydiau YouTube, Instagram, Facebook a TikTok, gyda chynnwys byr arbennig i ddysgwyr Mynediad tan Ganolradd

YouTube, Instagram, Facebook and TikTok feeds with special content for learners at Entry to Intermediate levels

I gael yr holl wybodaeth, yn ogystal â chyngor ymarferol, ewch i'n gwefan www.s4c.cymru/dysgucymraeg
For all the information, as well as practical advice, go to our website www.s4c.cymru/learnwelsh

Gwersi i Rieni - Lefel Uwch +

Diwrnod: Dydd Mawrth
Amser: 18:00-20:00
Cychwyn: 03.11.26
Gorffen: 08.12.26
Hyd y cwrs: 6 wythnos
Lefel: Uwch / Gloywi
Cyfrwng: ar-lein (Zoom)

Dyma gyfres o chwe gwers wedi'i chynllunio ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n dysgu Cymraeg ar lefel Uwch a Gloywi.

Mi fyddwch yn cael cyfle i gryfhau eich sgiliau iaith a magu hyder er mwyn cefnogi eich plant yn yr ysgol uwchradd.



Be' gewch chi?

- Chwe gwers thematig sy'n berthnasol i fywyd ysgol uwchradd
- Cyfle i drafod, ymarfer a gloywi iaith
- Awgrymiadau ymarferol i gefnogi eich plentyn trwy gyfrwng y Gymraeg

Sganiwch i gofrestru

Am fwy o wybodaeth:

dysgucymraeg@bangor.ac.uk

01248 383 928

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

BETH YW CARA?

- > CYLCHGRAWN PRINT A DIGIDOL
- > LLAWN LLIW A SGLEIN
- > 3 RHIFYN Y FLWYDDYN ERS 2019
- > ERTHYGLAU DIFYR
- > CYFWELIADAU GAN FENYWOD YSBYDOLEDIG
- > COLOFNWYR RHEOLAIDD A LLAWER MWY!



£5 Y RHIFYN - AR GAEL YN EICH SIOP LYFRAU LEOL

£15 Y FLWYDDYN AM DANYSGRIFIAD DRWY'R POST

£12 AM GOPÏAU DIGIDOL







DILYNWCH NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL @CYLCHGRAWNCARA

AC EWCH I'N GWEFAN AM FWY O WYBODAETH WWW.CARA.CYMRU

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro / The Vale

wjec cbac



Arholiadau CBAC Defnyddio'r Gymraeg
WJEC Examinations

Cynhelir arholiadau wyneb yn wyneb yng Ngheredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg - yn dibynnu ar niferoedd. Mae llyfryn "Gwybodaeth i Ymgeiswyr " CBAC ar gael wrth glicio'r lefel priodol. Gall profion llafar yn unig gael eu cynnig ar-lein.
Our exams will be held in-person in Ceredigion, Powys, Carmarthenshire and the Vale of Glamorgan depending on the demand. The "Information for Candidates" booklet is available by clicking on the appropriate level. Speaking tests alone will be available on-line.

Am ragor o wybodaeth ebostiwch E-mail for more information e-mail **ccm@aber.ac.uk**

Arholiad	Dyddiad Arholiad	Dyddiad Cau	Cofrestru
Mynediad Ionawr	Gwener, 29 Ionawr 2027	9 Rhagfyr 2026	Ar agor
Mynediad Dydd	Mawrth, 15 Mehefin 2027	1 Mawrth 2027	I ddilyn eto
Mynediad Nos	nos Fercher, 16 Mehefin 2027	1 Mawrth 2027	I ddilyn eto
Sylfaen	Gwener, 25 Mehefin 2027	1 Mawrth 2027	I ddilyn eto
Canolradd	Gwener, 18 Mehefin 2027	1 Mawrth 2027	I ddilyn eto
Uwch	Mercher a Iau, 23-24 Mehefin 2027	1 Mawrth 2026	I ddilyn eto

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Siawns am Sgwrs: Cwrdd ag Emyr Davies (y dyn tu ôl i'r llais)

Nos Iau, 3 Rhagfyr, 7.00pm-8.00pm

Mae Emyr Davies yn trefnu'r arholiadau. Dewch i sesiwn i ddod i nabod Emyr. Ymunwch ag Emyr a thîm y Ganolfan a chael sgwrs mewn grwpiau bach.

Croeso cynnes i ddysgwyr ar bob lefel.

This virtual event will give learners the opportunity to get to know Emyr Davies, who arranges the Dysgu Cymraeg exams, and have conversation practice.

Learners at all levels are welcome.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

12-14 Chwefror 2027

Gwersyll yr Urdd Llangrannog

- Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan

Welsh for the Family Weekend

12-14 February 2027

Gwersyll yr Urdd Llangrannog

- Welsh lessons, activities and fun for all the family



Llangrannog

Digwyddiadau Y Fro The Vale

Caffi Cymraeg Wythnosol

DYDD LLUN | MONDAYS	
10.30 - 11.30 & 11.45 - 12.45	Llyfrgell Cymunedol Gwenfô - Wenfo. CF5 6AY
10.00 - 11.00	Foxy's Deli, Penarth. CF64 3ED
14.00 - 15.00	Café 96, Y Bontfaen - Cowbridge CF71 7EE
DYDD MAWRTH | TUESDAYS	
10.30 - 12.30	Llyfrgell y Barri. CF63 4RW
11.00 - 12.00	Tafarn y Cherry Orchard, Y Barri. CF62 8EH
12.00 - 13.00	Llyfrgell Llanilltud Fawr - Llantwit. CF61 1XZ
DYDD MERCHER | WEDNESDAYS	
10.00 - 11.00	Caffi Velo, Llanilltud Fawr - Llantwit CF61 1SB
11.00 - 12.00	Llyfrgell Dinas Powys. CF64 4QU
11.30 - 12.30	Llyfrgell y Rhws - Rhoose. CF62 3DS
DYDD IAU | THURSDAYS	
10.00 - 11.00	Crafts by the Sea, Aberogwr - Ogmore. CF32 0PZ
09.30 - 11.00	Llyfrgell Y Sili - Sully. CF64 5TG
DYDD GWENER | FRIDAYS	
10.30 - 12.00	Y Bear, Y Bontfaen - Cowbridge. CF71 7AF

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro / The Vale

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Digwyddiadau Y Fro The Vale





Ymweliad a Neuadd Llanrhymni



- 17/11/26
- 10.30 yb
- £5
- Canolradd a Uwch

LLANRUMNEY HALL

Am le cysylltwch â Jên
For a place
07971523 249
jed58@aber.ac.uk
cyn /bore **13/11/26**

Digwyddiadau Ceredigion



Sadwrn Siarad Aberaeron

One day in-person course to practise the patterns you have learnt in class

Ysgol Gyfun Aberaeron
£10 09:30-15:30
Sadwrn, 7 Tachwedd 2026

Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol
Register on the level of your current class

Lefel Level	**Cod y cwrs** Course code
Mynediad 1 Entry 1	AT27-10-SS-M1-de
Mynediad 2 Entry 2	AT27-11-SS-M2-de
Sylfaen 1 a 2 Foundation 1 & 2	AT27-12-SS-S-de
Canolradd 1 a 2	AT27-13-SS-C-de
Uwch 1 a 2	AT27-14-SS-U12

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Cletwr

Dal Ati

Grŵp Sgwrsio Cymraeg
Welsh Chat Group

Unwaith y mis wyneb yn wyneb
@ Caffi Cletwr Tre'r Ddol
Every month in person!

09.30 - 11.30 bore Sadwrn
7 a 21 Tachwedd 2026

Croeso i bob lefel All levels welcome

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Natural History Illustration

Fungi



Cwrs arlunio gyda Tereska Shepherd yn Aberystwyth ar 18 a 25 Tachwedd

Mae'r cwrs peintio ymarferol hwn yn datblygu sgiliau wrth ddarlunio ffyngau'n gywir, gan gynnwys eu ffurfiau, eu manylion a'u lliwiau.

Yn addas ar gyfer dechreuwyr a'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau, mae'r cwrs yn cynnwys arddangosiadau, arweiniad unigol a chyfleoedd i weithio o sbesimenau.

£75- Cynllun Hepgor Ffioedd ar gael.

Am ddim i fyfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth!


Ni fydd dosbarthiadau yn dechrau heb y nifer gofynnol o ddysgwyr - cofrestrwch yn gynnar i osgoi siom

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Dysgu Gydol Oes
Lifelong Learning

Digwyddiadau Ceredigion







Digwyddiadau Ceredigion

AR GERED: LLANERCHAERON

Taith gerdded Gymraeg 10km ar hyd llwybrau heddychlon a phrydferth Cynnwys taith dywys o Stad Llanerchaeron (£5 / £0 aelodau YG)
Addas i siaradwyr Cymraeg gan gynnwys dysgwyr o bob lefel

Welsh Language 10km walk along beautiful and peaceful paths
Includes guided tour of Llanerchaeron Estate (£5 / £0 NT members)
Suitable for Welsh speakers including learners of all levels



Sgwâr Alban, Aberaeron | 9.45yb | Dydd Sadwrn 28.11.26
I gofrestru: steffan.rees@ceredigion.gov.uk

CYMDEITHAS CEREDIGION

Caffi Emlyn, Tan-y-groes
Nos Wener 4ydd Rhagfyr 7pm.

Cinio Nadolig gyda'r digrifwr Ifan Tregaron



Bwcio yn hanfodol trwy 07787 197630 neu aelodaeth.cymdeithas.ceredigion@gmail.com

CROESO CYNNES I BAWB



Cerddwyr Cylch Teifi

Grŵp Siarad a Cherdded
Cwrdd 10.30 bore Sadwrn unwaith y mis

14 Tachwedd 2026
Ardal Llwyngwair gyda Hedd Ladd Lewis

Croeso i bawb
philippa.gibson@gmail.com 01239 654561

Digwyddiadau Ceredigion

Practice your Welsh
Meet new people
Enjoy a walk in nature

Free weekly practice group for **Welsh learners**
Fluent Welsh speakers welcomed to help.

Mondays, 1 – 2pm
@ Denmark Farm Conservation Centre,
Betws Bledrws, SA48 8PB

Refreshments provided, booking advised.
www.denmarkfarm.org.uk/welsh



Meddwl am ganu mewn côr?
Thinking of joining a choir?

Mae na le i chi yn
CÔR MEIBION ABERYSTWYTH
has a place for you!

YMARFER POB NOS IAU AM 7YH
Y FESTRI, CAPEL SEION
STRYD Y POPTY

PRACTICE THURSDAYS 7PM
SEION CHAPEL VESTRY
BAKER STREET



CROESO I BAWB A WARM WELCOME TO ALL
WWW.CORMEIBIONABERYSTWYTH.CYMRU

CLYBIAU LEGO CERED

Clybiau Lego Cymraeg o gwmpas Ceredigion i blant oed 6-11
Dewch i fod yn greadigol a gwneud ffrindiau yn y Gymraeg
Themau a heriau misol er mwyn cynnig hwyl pob mis

Welsh Language Lego clubs for children ages 6-11
Join us to be creative and make friends in Welsh
Monthly themes and challenges to offer fun every month

Llyfrgell Aberaeron
3.45yp
Dydd Llun 1af a 3ydd y mis

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
3.45yp
Dydd Mawrth 1af y mis

Gan eithrio gwyliau ysgol a banc
Except for school and bank holidays

Cofrestru | Register
rhodri.francis@ceredigion.gov.uk

Iwcadwli

Chwarae'r ukulele neu offeryn tebyg arall e.e. gitâr, banjo neu'r mandolin?
Ymunwch â Iwcadwli i ddysgu a pherfformio caneuon Cymraeg amrywiol
Gwlp cyfeillgar Cymraeg sydd yn addas i siaradwyr a dysgwyr o bob lefel

Play ukulele or another strumming instrument e.g. guitar, banjo or mandolin?
Join Iwcadwli to learn and perform a variety of Welsh Language songs
Welsh medium group suitable for speakers and learners of all levels



Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
6-7yh | Pob nos Lun | Tymor newydd yn cychwyn 7.9.26

Digwyddiadau Ceredigion

DYSGU CYMRAEG YN ABERTEIFI?

Ymunwch â grwpiau lleol i ddysgwyr er mwyn ymarfer a gwella

Dydd Llun
Paned a Sgwrs Aberporth
3ydd dydd Llun y mis | 14.00 | Y Neuadd
eirianrees@hotmail.com

Dydd Mowrth
Clonc a Choffi Llandudoch
Am yn ail dydd Mowrth | 14.00 | Y Cartws
rhidian@mentersirbenfro.com

Dydd Mercher
Grŵp Sgwrsio Llandudoch
3edd nos Fercher y mis | 19.00 | Yr Hydd Gwyn
tlwsfan1@gmail.com

Dydd Iou
Siop Siarad Castell Aberteifi
Dydd Iou 1af y mis | 11.00 | 1176
rhodri.francis@ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener
Cyd Aberteifi
Bob dydd Gwener | 10.00 | Gorffwysfa'r Pysgotwr
howard.swnynant@btinternet.com

Dydd Sadwrn
Cerddwyr Cylch Teifi
2il ddydd Sadwrn y mis | 10.30 | Lleoliadau amrywiol
Philippa.gibson@gmail.com

Am weithgareddau eraill dilynwch Cered ar Facebook ac Instagram

SIOP SIARAD COEDYBRYN

Dysgu Cymraeg? Dewch i fwynhau sgwrs yn Gymraeg dros ddished
Addas i siaradwyr Cymraeg gan gynnwys dysgwyr Cymraeg o bob lefel

Learning Welsh? Join us to practice with a chat in Welsh over a cuppa
Suitable for Welsh speakers including learners of all levels and abilities



Neuadd Coedybryn | 10.00 | Dydd Gwener 20.11.26

£2 tuag at gostau'r neuadd a'r lluniaeth | £2 towards hall and refreshments

SIOPAU SIARAD ARDAL ABERAERON

Grwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr
Cyfleoedd gwych i ymarfer eich Cymraeg a gwneud ffrindiau

Chat groups for Welsh learners organised by volunteers
Great opportunities to practice your Welsh and make friends

Aberaeron
Y Cwch Gwenyn
10.30 bob Dydd Mercher

Ciliau Aeron
Tŷ Glyn
10.30 Bob Dydd Iau
+ 6.30 Nos Fawrth 1af y mis

Llanon
Yr Ystafell Ddarllen
11.00 bob Dydd Sadwrn

For more info | Am fwy o wybodaeth
cered@ceredigion.gov.uk

SIOPAU SIARAD ABERTEIFI AC ABERPORTH

Grwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr
Cyfleoedd gwych i ymarfer eich Cymraeg a gwneud ffrindiau

Chat groups for Welsh learners organised by volunteers
Great opportunities to practice your Welsh and make friends

Aberteifi
Gorffwysfa'r Pysgotwr
10.00 bob Dydd Gwener

Aberteifi
1176 - Castell Aberteifi
11.00 Dydd Mercher 1af y mis

Aberporth
Neuadd y Pentref
2.00 3ydd Dydd Llun y mis

For more info | Am fwy o wybodaeth
cered@ceredigion.gov.uk

Digwyddiadau Ceredigion

Cerdded a Chlonc

Practice your Welsh
Meet new people
Enjoy a walk in nature

Free weekly practice group for **Welsh learners**
Fluent Welsh speakers welcomed to help.

Mondays, 1 – 2pm
@ Denmark Farm Conservation Centre, Betws Bledrws, SA48 8PB

Refreshments provided, booking advised.
www.denmarkfarm.org.uk/welsh



SIOPAU SIARAD ARDAL ABERYSTWYTH

Gwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr Cyfeoedd gwych i ymarfer eich Cymraeg a gwneud ffrindiau

Chat groups for Welsh learners organised by volunteers
Great opportunities to practice your Welsh and make friends

Aberystwyth
Home Cafe
10.30 bob Dydd Iau

Penparcau
Yr Hwb
11.00 Dydd Mercher 1af a 3ydd y mis

Tre'r Ddôl
Cletwr
10.30 Dydd Sadwrn 1af a 3ydd y mis

For more info | Am fwy o wybodaeth
cered@ceredigion.gov.uk

SIOPAU SIARAD LLANDYSUL

Gwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr Cyfeoedd gwych i ymarfer eich Cymraeg a gwneud ffrindiau

Chat groups for Welsh learners organised by volunteers
Great opportunities to practice your Welsh and make friends

Llandysul
Y Ffynnon
9.45 bob Dydd Llun

Llandysul
Gwesty'r Porth
7.30 3ydd Nos Iau y mis

For more info | Am fwy o wybodaeth
cered@ceredigion.gov.uk

SIOPAU SIARAD TREGARON A LLANBED

Gwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr Cyfeoedd gwych i ymarfer eich Cymraeg a gwneud ffrindiau

Chat groups for Welsh learners organised by volunteers
Great opportunities to practice your Welsh and make friends

Llanbedr Pont Steffan
Llain y Castell
7.30 Nos Wener
Mai 15fed

Llanbedr Pont Steffan
Conti's / Hedyn Mwstard
2.00 2il Dydd Iau y mis

Tregaron
Y Talbot
11.00 bob dydd Gwener

For more info | Am fwy o wybodaeth
cered@ceredigion.gov.uk

Digwyddiadau Powys

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Sadwrn Siarad Maldwyn

In person one day course near Welshpool

Canolfan Gymunedol Buttington Trewern Community Centre

14.11.2026
09:30 - 15:30
£10

Lefel Level	**Gogledd** North Dialect
Mynediad 1 a 2 Entry 1 & 2	AT27-15-SS-M-gog
Sylfaen 1 a 2 Foundation 1 & 2	AT27-16-SS-S-gog
Canolradd 1 a 2	AT27-17-SS-C-gog
Uwch 1 a 2	AT27-18-SS-U12g

Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol
Register on the level of your current class

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Cyrsiau Undydd Llandrindod

In person one day courses in Llandrindod Wells

Celf o Gwmpas LD1 5EB | Tachwedd 2026 | 09:30 - 15:30 | £10

Lefel Level	**Dydd** Day	**Dyddiad** Date	**De** South Wales Dialect
Mynediad 1 Entry 1	**Sadwrn**	**14/11/2026**	AT27-24-SS-M1-de
Mynediad 2 Entry 2	**Sadwrn**	**21/11/2026**	AT27-25-SS-M2-de
Sylfaen 1 a 2 Foundation 1 & 2	**Sadwrn**	**28/11/2026**	AT27-26-SS-S-de
Canolradd 1 a 2	**Mercher**	**18/11/2026**	AT27-27-SS-C-de
Uwch 1 a 2	**Iau**	**26/11/2026**	AT27-28-SS-U12d

Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol
Register on the level of your current class

Digwyddiadau Powys

Sesiynau Canu

Dewch i ddysgu caneuon gwerin traddodiadol Cymreig ac emynau mewn harmoni.

Am ddim a chroeso i bawb.

Cân yn y Dafarn

Wedi'u harwain gan Cass Meurig ac Elin Gittins gyda chefnogaeth Gwilym Bowen Rhys, Carys Gittins, Rhian a Bryn Davies.

Neuadd Llanfihangel | 2:00 - 3:30
18/10 | 1/11 | 15/11 | 29/11
Dim angen archebu

07975526070
elinacarysmiwsig@gmail.com

TŶ CERDD
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED



Tocynnau / Tickets £15, £17.50*, £20
*Pris sefonci a awgrymir / Recommended price
01639 843163 | www.thewelfare.co.uk





dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire


Clwb anffurfiol ar-lein i sgwrsio yn Gymraeg
Friendly, informal online chat group to practise your Cymraeg

'Dyn ni'n cwrdd ar Zoom ar fore Mawrth dwywaith y mis
We meet on zoom on Tuesday mornings - twice a month
Croeso i bob lefel All levels welcome

Cwrdd Next meetings
Bore Mawrth 10:30-11:30 Tuesdays
22 Medi, 6 a 20 Hydref, 3 a 17 Tachwedd, 1 a 15 Rhagfyr 2026

Cyswllt | Contact **Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk**

Clwb Hwb Maldwyn







Digwyddiadau Powys

Digwyddiadau Powys









Digwyddiadau Sir Gâr







Digwyddiadau Sir Gâr












Digwyddiadau Sir Gâr









Digwyddiadau Sir Gâr









Digwyddiadau Sir Gâr









Digwyddiadau Sir Gâr







Newyddion | News



Dysgwr o Gaerloyw yn dychwelyd i Aberystwyth i ddilyn gradd yn y Gymraeg

Learner from Gloucester returns to Aberystwyth for Welsh degree

Mae dysgwr, oedd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1977, wedi dychwelyd yno eleni i ddilyn gradd yn y Gymraeg, ar ôl dysgu Cymraeg ar gyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd Mike Davies, sy'n dod o Gaerloyw yn wreiddiol, ond sy'n byw yn Abergwaun, yn symud i Aberystwyth yn y flwyddyn newydd, er mwyn defnyddio ei Gymraeg bob dydd, wrth astudio'n rhan amser am gyfnod o chwe blynedd.

Roedd hen dad-cu Mike, Abel Christmas Davies, yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn nyddiau cynnar y Brifysgol, a chafodd Abel ei ddewis i chwarae rygbi dros Gymru yn 1889. Er mai yn Swydd Gaerloyw y magwyd Mike, roedd yn ymwybodol o'r Gymraeg a'r cysylltiad teuluol â Chymru o'r cychwyn cyntaf.

Wyth mlynedd yn ôl symudodd Mike i Sir Benfro a phenderfynu ymroi i feistroli'r Gymraeg. Yn fwy diweddar mae e wedi mynychu'r cwrs haf dwys gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Aberystwyth ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ychwanegol, mae wedi derbyn Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.


A learner who first began learning Welsh as an 18-year-old student at Aberystwyth University in 1977, has returned 50 years later to study a degree in the language, having developed his skills with the National Centre for Learning Welsh.

Mike Davies, originally from Gloucester and currently living in Fishguard, Pembrokeshire, will move to Aberystwyth in the new year to fully immerse himself in the Welsh-speaking community while completing his six-year part-time degree.

Mike's great-grandfather, Abel Christmas Davies, was a student at Aberystwyth in the early days of the university and won a rugby cap playing for Wales in 1889. Although Mike grew up in Gloucestershire, he was always aware of the Welsh language and his family heritage.

Mike retired to Pembrokeshire eight years ago and made a commitment to master the Welsh language. More recently, he has attended an intensive summer course with Learn Welsh Ceredigion, Powys and Carmarthenshire, which is run by Aberystwyth University on behalf of the National Centre for Learning Welsh. He also recently gained the Welsh Language Skills Certificate from the Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cwrs Haf Dwys 2026 - Aberystwyth











Adroddiad Felicity Roberts

Unwaith eto eleni cafwyd cwrs llwyddiannus iawn, gyda'r niferoedd yn sefydlogi ar 171 gyda phobl o 14 gwlad wahanol.

Eleni cynigiwyd ymestyniad ar y Cwrs Cymraeg Proffesiynol yn dilyn y galw cynyddol gan fyfyrwyr am gwrs pedair wythnos i ddilyn y Cwrs Uwch 3. Mentrwyd cynnig yr ymestyniad i ddilyn y Cwrs wythnos o Gymraeg Proffesiynol, a'i alw yn 'Gloywi Iaith Llên a Diwylliant. Roedd 30 o bobl yn y dosbarth ar y lefel hon, 10 ohonyn nhw am y mis cyfan, 7 yn gwneud yr wythnos gyntaf yn unig y cadwyd yr enw Cymraeg Proffesiynol arno, a13 yn dewis gwneud y pythefnos cyntaf yn unig neu'r pythefnos olaf. Y mwyaf a gafwyd yn y dosbarth ar un tro oedd 24, ond gydag ystafell fawr braf, a thiwtoriaid medrus a phrofiadol, daethpwyd i ben yn arbennig. Bu'r fenter hon yn llwyddiant ysgubol, gydag ymweliadau gan awduron, cerddorion a chynrychiolwyr o fudiadau a sefydliadau Cymraeg yn ategu'r gwersi gyda'r ddau diwtor a oedd wrth y llyw. Cawsant ymweliad â'r Lolfa yn Nhal-y-bont a chanolfan ddiwylliannol MOMA ym Machynlleth fel rhan o'r arlwy.

Gyda 60 wedyn yn y dosbarthiadau Uwch, sef Uwch 1, Uwch 2 ac Uwch 3, roedd 90 ar y lefel Uwch a Gloywi. 81 oedd ar y lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Roedd y darlun tipyn yn wahanol eleni felly i fel mae hi wedi arfer bod, gyda'r niferoedd yn mynd yn llai po uchaf eu safon yn y gorffennol.

Roedd 11 dosbarth i gyd, a staffiwyd y rhain gyda 15 o diwtoriaid ardderchog a gafodd eu canmol i'r cymylau gan y myfyrwyr dan eu gofal, a phob un ohonynt yn gwneud eu gorau glas i sicrhau ein bod yn darparu cwrs a oedd yn dod â phobl i fod yn siaradwyr Cymraeg. Ymdrechir i wneud y gwersi yn rhai difyr gyda digon o amrywiaeth yn ogystal â chyfle i gadarnhau deunydd newydd. Mae'r Cwrs hwn yn rhoi cyfle i bobl gyflawni lefel gyfan mewn mis, neu hanner lefel mewn pythefnos.

Cwrs Haf Dwys 2026 - Aberystwyth

Bob prynhawn dydd Mercher roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn dod i mewn i sgwrsio â'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau. Nodwyd yn yr adborth cymaint roedd hyn yn cael ei werthfawrogi. Mae tua chant o unigolion ar y rota hon o wirfoddolwyr. Diolch o galon iddynt



Roedd pob dosbarth o'r lefel Mynediad i Uwch 3 yn cael cyfle i fynychu cyflwyniad gan staff Geiriadur Prifysgol Cymru, a chael arweiniad ymarferol ganddynt yn yr Ystafell gyfrifiaduron ar sut i gael y gorau o'r Geiriadur. Yn ogystal cafodd y dosbarthiadau hyn eu croesawu gan staff Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol a'u tywys ar daith ddiddorol o gwmpas y sefydliad yr ydym mor falch ohono fel cenedl.



Rhan greiddiol o'r Cwrs yw'r rhaglen o weithgareddau a drefnir gyda'r nos. Ceir dau weithgaredd yr wythnos. Mae Rhiannon Taylor yn llwyddo i gychwyn gyda noson hwyliog wych sy'n rhyfeddol o addas i bob lefel. Yna eleni cafwyd taith gerdded o gwmpas tref Aberystwyth, a thri arweinydd dawnus yn arwain tri grŵp ar lefelau gwahanol: y dihafal Gerald Morgan, Dafydd Morse a'i ffraethineb, a Jackie Willmington a'i gwybodaeth drefnus.



Cawsom ein cyfareddu eto eleni gan yr Archdderwydd Mererid Hopwood, ac un o uchafbwyntiau'r rhaglen bob amser ydy'r Noson Lawen gyda sgets y tiwtoriaid a ddyfeisir gan Jaci Taylor yn cael pobl yn eu dyblau yn chwerthin. Mae'r gerddoriaeth gyda Chôr Cyd a'u telynores, a Rhiannon Sparrow ar yr acordion a Nicolas Davalan a'i grŵp, yntau ar y bas dwbl, yn rhoi amrywiaeth hyfryd i'r noson. Mae noson y twmpath a drefnir gan Barti Dawns Aelwyd Aberystwyth a'r band ffantastig sydd ganddynt yn creu'r gerddoriaeth fyw, yn noson fywiog lwyddiannus bob amser. Mae criw da yn heidio i lawr wedyn, i'r noson mae Eglwys y Santes Fair yn ei darparu i bobl y Cwrs. Mae bob amser yn noson werth chweil.





Cwrs Haf Dwys 2026 - Aberystwyth



Yn ystod yr wythnos olaf cafwyd noson ddifyr o ganu gyda Mei Gwynedd, a Richard Vale wrth y llyw yn creu sesiynau sgwrsio rhwng y caneuon. Diweddwyd gyda noson hynod lwyddiannus o bryd bwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn dilyn gweld y ffilm 'Y Sŵn', sef hanes y frwydr dros gael Sianel Deledu Gymraeg, a Gwynfor Evans yn ganolog yn yr hanes.



Mae Anika, Rhian, Carys, Cêt, Elin, Lili a finnau fel gweithgor y Cwrs Haf, eisoes wedi dechrau cynllunio Cwrs 2027. Gwnawn ein gorau i sicrhau cwrs llawen a llwyddiannus eto.

Bydd modd cofrestru yn fuan yn y flwyddyn newydd.













Cwrs Haf Dwys 2026 - Aberystwyth

Bob prynhawn dydd Mercher roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn dod i mewn i sgwrsio â'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau. Nodwyd yn yr adborth cymaint roedd hyn yn cael ei werthfawrogi. Mae tua chant o unigolion ar y rota hon o wirfoddolwyr. Diolch o galon iddynt



Roedd pob dosbarth o'r lefel Mynediad i Uwch 3 yn cael cyfle i fynychu cyflwyniad gan staff Geiriadur Prifysgol Cymru, a chael arweiniad ymarferol ganddynt yn yr Ystafell gyfrifiaduron ar sut i gael y gorau o'r Geiriadur. Yn ogystal cafodd y dosbarthiadau hyn eu croesawu gan staff Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol a'u tywys ar daith ddiddorol o gwmpas y sefydliad yr ydym mor falch ohono fel cenedl.



Rhan gwreiddiol o'r Cwrs yw'r rhaglen o weithgareddau a drefnir gyda'r nos. Ceir dau weithgaredd yr wythnos. Mae Rhiannon Taylor yn llwyddo i gychwyn gyda noson hwyliog wych sy'n rhyfeddol o addas i bob lefel. Yna eleni cafwyd taith gerdded o gwmpas tref Aberystwyth, a thri arweinydd dawnus yn arwain tri grŵp ar lefelau gwahanol: y dihafal Gerald Morgan, Dafydd Morse a'i ffraethineb, a Jackie Willmington a'i gwybodaeth drefnus.



Cawsom ein cyfareddu eto eleni gan yr Archdderwydd Mererid Hopwood, ac un o uchafbwyntiau'r rhaglen bob amser ydy'r Noson Lawen gyda sgets y tiwtoriaid a ddyfeisir gan Jaci Taylor yn cael pobl yn eu dyblau yn chwerthin. Mae'r gerddoriaeth gyda Chôr Cyd a'u telynores, a Rhiannon Sparrow ar yr acordion a Nicolas Davalan a'i grŵp, yntau ar y bas dwbl, yn rhoi amrywiaeth hyfryd i'r noson. Mae noson y twmpath a drefnir gan Barti Dawns Aelwyd Aberystwyth a'r band ffantastig sydd ganddynt yn creu'r gerddoriaeth fyw, yn noson fywiog lwyddiannus bob amser. Mae criw da yn heidio i lawr wedyn, i'r noson mae Eglwys y Santes Fair yn ei darparu i bobl y Cwrs. Mae bob amser yn noson werth chweil.



